



Adferiad Natur ar gyfer Ein Goroesiad, ein Ffyniant a'n Lles

Datganiad ar y cyd gan Gyrrff Cadwraeth Natur Statudol y DU

Yn COP15 mae gennym ni gyfle i weithredu gyda dewrder a gweledigaeth i adfer yr ecosystemau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae colli bioamrywiaeth eisoes yn achosi niwed difrifol i bobl ac mae'n ffigythiad mawr i ddyfodol dynoliaeth. Nid yw'n rhy hwyr i newid trywydd, ond mae'n rhaid i ni weithredu nawr.

Gyda'r heriau sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd, mae buddsoddi yn adferiad byd natur yn fwy tyngedfennol ac amserol nac erioed.

Mae'r dystiolaeth yn glir. Natur sy'n ein cynnal ac mae ein heconomi wedi'i gwreiddio ym myd natur.

Mae buddsoddiad mewn adfer natur yn fuddsoddiad yn ein ffyniant economaidd a'n lles cymdeithasol. Cyntaf yn y byd y byddwn yn gweithredu i adfer natur, gorau oll y bydd y buddion yr ydym ni'n eu gwireddu.

Gwyddwn fod adfer natur yn arwain at ddiogelwch amgylcheddol. Heb natur iach, nid oes modd sefydlogi hinsawdd, na sicrhau diogelwch economaidd, diogelwch dŵr a diogelwch bwyd. Drwy fuddsoddi mewn natur ym mhopeth a wnawn rydyn ni'n buddsoddi mewn ffyniant a lles i bawb.

Gwyddwn fod perthynas anwahanadwy rhwng yr hinsawdd a bioamrywiaeth ac mae'n rhaid i gymdeithasau ganolbwyntio ar y ddau ar y cyd. Os byddwn ni'n methu wrth fynd i'r afael â naill ai'r argyfwng bioamrywiaeth neu hinsawdd, byddwn ni'n methu yn y ddau faes.

Rydym yn gwybod sut i ddefnyddio gallu natur i wella ffyniant a lles ein pedair gwlad a gwyddwn fod natur yn allweddol er mwyn cynyddu ein gwytnwch a'n diogelwch amgylcheddol. Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn cefnogi llywodraethau, busnes, a'r gymdeithas ehangach i adfer natur drwy:

- Ymwreiddio diogelwch amgylcheddol ac adferiad natur yn fframweithiau gwneud penderfyniadau'r DU, yn enwedig wrth ystyried bygythiadau i ddiogelwch economaidd y DU.
- Cefnogi'r gymuned fyd-eang i ymrwymo i dargedau uchelgeisiol yn COP15¹ i wella iechyd ecosystemau'r byd yn gyflym ac yn effeithiol. Creu chwarae teg wrth i bob cenedl weithio i adennill ac adfer eu hecosystemau a chael eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd ar y cyd.
- Cefnogi'r gwaith o fonitro a gwerthuso domestig a byd-eang i adrodd ar y cynnydd wrth gyflawni'r targedau hyn.
- Cyflawni uchelgeisiau COP15 y DU gyda pholisïau effeithiol ar draws y DU sy'n cymell ac yn sbarduno buddsoddiad cyhoeddus a phreifat wrth ddiogelu ac adfer natur y DU drwy ein holl weithgareddau.

¹15fed Cynhadledd Partion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ym mis Rhagfyr 2022.

- Cefnogi llywodraethau ledled y byd i bontio i bolisiau a deddfwriaeth ‘natur bositif’, gan wneud ecosystemau ym mhobman yn iachach ac yn fwy cynhyrchiol a gwella ffyniant a lles i bawb.
- Trafod cytundebau masnach cynaliadwy sy’n rhoi ystyriaeth i’w heffeithiau ar adferiad natur fel bod masnachu’n cynyddu diogelwch amgylcheddol yn hytrach na’i leihau. Bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau cadwyni cyflenwi byd-eang y DU.
- Cyflawni uchelgeisiau cryf Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd i sbarduno buddsoddiad cyhoeddus a phreifat mewn atebion sy’n seiliedig ar natur er mwyn sefydlogi’r hinsawdd.

Wrth sefyll gyda’n gilydd fel Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU, rydym yn cydnabod cryfder a brys y dystiolaeth. Rydym yn siarad ag un llais ar yr adeg hon o argyfwng natur i dynnu sylw at yr angen am weithredu i adfer natur nawr, yn y DU ac yn fyd-eang, fel bod modd sicrhau ffyniant a lles y DU i’r dyfodol.

Rydym yn barod i gefnogi pedair Llywodraeth y DU fel cynghorwyr a phartneriaid cyflenwi, er mwyn cynorthwyo’r DU i gyflawni’n ddomestig ar ei ymrwymadau byd-eang uchelgeisiol, i adfer natur y DU a darparu dyfodol diogel a chynaliadwy i bawb.

Cydbwyllgor Cadwraeth Natur

Yr Athro Colin Galbraith FRSE, Cadeirydd

Dr Gemma Harper OBE, Prif Weithredwr

Natural England

Tony Juniper CBE, Cadeirydd

Marian Spain, Prif Weithredwr

Cyfoeth Naturiol Cymru

Syr David Henshaw, Cadeirydd

Clare Pillman CB OBE, Prif Weithredwr

NatureScot

Dr Mike Cantlay OBE, Cadeirydd

Francesca Osowska OBE FRSE, Prif Weithredwr

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon

Paul Donnelly, Prif Weithredwr

Cyngor Cadwraeth Natur a Chefn Gwlad

Dr Hilary Kirkpatrick, Cadeirydd

Tachwedd 2022



Adferiad Natur ar gyfer Ein Goroesiad, ein Ffyniant a'n Lles: Y Dystiolaeth

Fel Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU, rydym ni wedi amlinellu pwysigrwydd a pherthnasedd natur, gan gynnwys camau cadarnhaol y gall y DU eu cymryd, yn ein Hadroddiad Crynodeb Natur Bositif 2030 a'r adroddiad tystiolaeth cysylltiedig².

Mae natur yn sail i'r marchnadoedd byd-eang sy'n cyflenwi ein nwyddau a'n gwasanaethau. Mae rhywogaethau ac ecosystemau yn darparu maetholion, ocsigen, dŵr, lloches, rheoleiddio clefydau a rheoleiddio'r hinsawdd sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso ein ffyniant a'n lles.

Mae bioamrywiaeth, gan gynnwys y rhywogaethau a'r ecosystemau sy'n rhan o fywyd ar y ddaear, yn galluogi natur i fod yn gynhyrchiol. Yn yr un modd â'r ffordd y mae portffolio amrywiol o asedau ariannol yn lleihau risg ac ansicrwydd, mae amrywiaeth o rywogaethau ac ecosystemau yn darparu natur fwy gwydn a chynhyrchiol i ni yn gyffredinol.

Fel mae Adolygiad Dasgupta Trysorlys EM 2021 o Economeg Bioamrywiaeth yn ei ddangos, mae'r dybiaeth gyffredin fod y nwyddau a'r buddion a ddarperir gan natur sy'n sail i'n heconomi yn gwbl ddirfyn yn anghywir.

Diogelwch Bwyd

Mae Adolygiad Diogelwch Bwyd y DU 2021 yn nodi bod y '*risg fwyaf yn y tymor canolig i'r tymor hir o ran cynhyrchiad [bwyd] domestig yn y DU yn deillio o... bwysau amgylcheddol fel... [colli] bioamrywiaeth*'. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw ymhellach at bwysigrwydd bioamrywiaeth o safbwynt diogelwch bwyd byd-eang, gan ddweud '*Mae mwy na 75% o'r mathau blaenllaw o gnydau bwyd byd-eang yn dibynnu i raddau ar beillio gan anifeiliaid ar gyfer cynnyrch a/neu ansawdd*'. Nododd adroddiad OECD 2019 i'r G7 bod cnydau o'r fath werth rhwng \$235-577 biliwn yn flynyddol. Mae Adolygiad Dasgupta Trysorlys EM 2021 o Economeg Bioamrywiaeth yn tynnu sylw ymhellach at bwysigrwydd bioamrywiaeth bridd i gynhyrchu bwyd, gan nodi '*Pe bai bioamrywiaeth pridd yn cael ei gollu yn llwyr, ni fyddai'r system fwyd ar y tir yn gallu gweithredu*'.

Diogelwch Dŵr

Mae adfer natur i ailsefydlu prosesau naturiol, gan gynnwys prosesau hydrolegol naturiol, yn gallu gwella diogelwch dŵr yn sylweddol. Daeth Trydydd Adroddiad Pwyllgor Cyfalaf Naturiol Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor Materion Economaidd i'r casgliad y gallai defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur drwy adfer gwlyptiroedd i fyny'r afon o drefi a dinasoedd mawr arwain at gymhareb cost i fudd o hyd at 9:1, o ganlyniad i wella diogelwch dŵr, lleihau costau trin dŵr a rheoli perygl llifogydd. Mae datblygu a defnyddio datrysiadau naturiol i helpu i gynnal ein cyflenwadau dŵr yn flaenoriaeth amlwg ar gyfer y dyfodol.

² <https://jncc.gov.uk/our-role/the-uk/nature-positive-2030/>

Economïau Cynaliadwy

Daeth dadansoddiad gan Gynghrair Cyllid Cyfalaf Naturiol sector cyllid y DU yn 2018 i'r casgliad fod '74% o'r sectorau Mynegai [FTSE All-Share] o bosibl yn ddibynol iawn neu'n eithriadol o ddibynol ar gyfalaf naturiol'. Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol bod asedau cyfalaf naturiol y DU werth £1.2 triliwn yn 2019. Daeth Fforwm Economaidd y Byd i'r casgliad fod tua hanner GDP y byd (\$44 triliwn) yn ddibynol iawn neu'n gymharol ddibynol ar natur a chanfu adroddiad yr OECD i'r G7 yn 2019 'fod yr achos economaidd-gymdeithasol dros weithredu bioamrywiaeth fwy uchelgeisiol yn glir... mae'r amcangyfrif mwyaf cynhwysfawr yn awgrymu bod gwasanaethau ecosystemau yn darparu buddion o \$125-140 triliwn y flwyddyn, h.y. mwy nag un a hanner gwaith maint GDP byd-eang'. Gyda'i gilydd mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ffyniant cynyddol heb danseilio'r sylfeini naturiol y mae'r ffyniant hwnnw'n seiliedig arnynt.

Gwytnwch i Drychinebau

Gall defnyddio atebion naturiol gynnig dulliau effeithlon ac effeithiol o leihau'r risg o drychinebau naturiol, yn enwedig mewn hinsawdd sy'n cynhesu'n gyflym. Mae adroddiad Asesiad Annibynnol Risg Hinsawdd Pwyllgor Newid Hinsawdd 2021 y DU (CCRA3) yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer atebion naturiol er mwyn helpu'r DU i addasu i gryfder cynyddol trychinebau naturiol yn wyneb hinsawdd sy'n newid - gyda choed yn cysgodi trefi yn ystod tywydd poeth, morfeydd heli yn amddiffyn cymunedau arfordirol rhag cynnydd yn lefel y môr, a chynefinoedd gwlyptir a glannau afon yn lleihau effaith llifogydd torlannol. Mae adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd 2021 sy'n trafod 'Gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r risg o lifogydd' yn rhoi trosolwg manwl o rôl natur wrth leihau perygl llifogydd. Mae'r 'offer naturiol' i helpu'r sefyllfa yn bodoli, ond mae angen iddyn nhw gael eu gwarchod a'u defnyddio.

Chwalfa'r Hinsawdd

Mae ecosystemau sydd wedi'u diraddio yn gallu amsugno llai o garbon o'r atmosffer ac yn fwy tebygol o allyrru carbon i'r atmosffer. Mae'r berthynas rhwng yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn anwahanadwy, os byddwn ni'n methu wrth fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth neu hinsawdd, byddwn ni'n methu yn y ddau faes. Byddai adfer hanner mawndiroedd y DU yn storio carbon gwerth £45-51 biliwn yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn amcangyfrif y byddai adfer hanner mawn ucheldir y DU a chwarter mawn iseldir y DU yn lleihau allyriadau'r DU gan 5 MtCO_{2e} erbyn 2050 (sy'n cyfateb i allyriadau hanner miliwn o gartrefi). Mae cyflawni safon uchel o ran natur a lefelau carbon isel yn her glir i'r dyfodol ac yn un y mae angen i ni chwarae rhan wrth ei chyflawni.

Gwella Iechyd a Lles

Mae nifer yr adroddiadau ar werth natur a'r amser a dreulir ym myd natur i les wedi cynyddu ers cyfyngiadau symud Covid-19. Daeth adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022 ar y Manteision Iechyd o Gyfalaf Naturiol i'r casgliad fod gwerth y manteision iechyd o ganlyniad i dreulio amser ym myd natur rhwng £6.2 biliwn a £8.4 biliwn y flwyddyn. Mae ecosystemau sydd wedi'u diraddio yn cynyddu'r risg o glefydau milheintiol. Roedd Llwyfan Polisi-Gwyddoniaeth Rynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig 2020 ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau Adroddiad Gweithdy ar Fioamrywiaeth a Phandemig wedi amcangyfrif bod pandemig a milheintiau eraill yn costio dros US\$1 triliwn yn flynyddol i'r economi fyd-eang, gyda COVID-19 yn costio US\$8-16 triliwn erbyn Gorffennaf 2020. Y tu hwnt i'r dadansoddiad ariannol clir, mae natur yn rhan o'n treftadaeth a'n diwylliant ac yn rhan o'n hunaniaeth. Rydym yn dod yn fwy a mwy ymwybodol ein bod yn achosi niwed i ni'n hunain wrth niweidio natur.